Mae’r drwydded hon yn ddyddiedig: Y dyddiad y byddwch yn derbyn eich Cytundeb Preswylio yn electronig ac y byddwch yn cael e-bost gan dîm Swyddfa’r Neuaddau yn cadarnhau eich bod wedi derbyn eich Cytundeb Preswylio.

**Partïon**

(1) Landlord: Prifysgol Bangor, Ffordd y Coleg, Bangor, Gwynedd.

(2) LL572DG elusen gofrestredig rhif 1141565

(3) Enw’r Myfyriwr: Yn unol â’r hyn sydd yn yr adran “Cytundeb Preswylio” ar dudalen “Eich Cynnig” ar borth Prifysgol Bangor;

(4) Cyfeiriad: Yn unol â’r hyn sydd yn yr adran “Eich Llety” ar dudalen “Eich Cynnig” ar borth Prifysgol Bangor.

**Telerau a gytunwyd.**

2.3 Cyfanswm y Ffi Trwyddedu ar ddechrau’r Drwydded hon yw: Yn unol â’r hyn sydd yn yr adran “Eich Ffioedd Neuaddau” ar dudalen “Eich Cynnig” ar borth Prifysgol Bangor.

2.4 Gall Prifysgol Bangor gynyddu’r Ffi Trwyddedu ar unrhyw adeg drwy roi dim llai na phedair wythnos o rybudd ysgrifenedig i chi sy’n nodi’r Ffi Trwyddedu newydd a’r dyddiad y mae’n daladwy ohono.

2.5 Mae'r Trwyddedai'n cydnabod:

(a) bydd y Trwyddedai yn meddiannu'r Eiddo fel trwyddedai ac na chrëir unrhyw berthynas landlord a thenant rhwng Prifysgol Bangor a'r Trwyddedai trwy'r cytundeb hwn.

(b) Prifysgol Bangor sy'n cadw rheolaeth, meddiant a goruchwyliaeth dros yr Eiddo.

(c) mae'r Drwydded hon yn bersonol i'r Trwyddedai ac ni ellir ei throsglwyddo mewn unrhyw ffordd i berson neu bobl eraill.

(d) nid yw’r Drwydded yn gontract meddiannaeth o dan Adran 7 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) oherwydd bod y Trwyddedai o dan 18 oed. Nid yw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) yn berthnasol i'r Drwydded hon.

3.1 Mae’r Trwyddedai’n cytuno â Phrifysgol Bangor i wneud y canlynol:

(a) preswylio yn yr Eiddo ar eu pen eu hunain.

(b) defnyddio'r Eiddo dim ond fel annedd breifat i'r Trwyddedai ei feddiannu.

(c) cadw'r Eiddo a'r Cynnwys yn lân ac mewn cyflwr da.

(d) os achosir difrod i'r Mannau Cyffredin bydd y trwyddedai’n gyfrifol am dalu Prifysgol Bangor am y costau atgyweirio.

(e) os achosir difrod i'r Mannau Cyffredin ac nad oes cytundeb rhwng y rhai sydd â hawl i ddefnyddio'r mannau yn gyffredin â'i gilydd mewn perthynas â i) phwy sy'n gyfrifol neu ii) thalu costau atgyweirio Prifysgol Bangor am yr hyn y difrodir, mae’r Trwyddedai’n cytuno y gall Prifysgol Bangor rannu’r costau’n gyfartal rhwng y rhai sydd â hawl i ddefnyddio’r Mannau Cyffredin ac y bydd y Trwyddedai’n gyfrifol am y ganran berthnasol o’r costau atgyweirio.

(f) peidio â chadw unrhyw beth yn yr Eiddo a fyddai’n risg iechyd a diogelwch i’r Trwyddedai, unrhyw bobl sy’n ymweld â’r Eiddo neu unrhyw bobl sy’n byw yng nghyffiniau’r Eiddo.

(g) peidio ag ymyrryd â larymau/synwyryddion carbon monocsid/mwg na'u tynnu o'r Eiddo.

(h) peidio â gadael i'r Eiddo fynd i gyflwr lle gallai achosi anaf i'r Trwyddedai neu unrhyw berson arall.

(i) cymryd camau rhesymol i sicrhau bod yr Eiddo'n ddiogel a hysbysu Prifysgol Bangor os ydych am fod yn absennol o'r Eiddo am fwy na 7 diwrnod, trwy gofnodi ar wefan y Neuaddau pa ddyddiad yr ydych yn disgwyl ymadael â'r Neuaddau a'r dyddiad yr ydych yn disgwyl dychwelyd.

(j) bod yn gyfrifol am unrhyw allweddi a/neu gardiau coll ar gyfer yr eiddo a, lle bo'n berthnasol, unrhyw allweddi a/neu gardiau coll ar gyfer yr adeilad, a thalu Prifysgol Bangor am gost unrhyw rai newydd;

(k) peidio â pharcio cerbyd ar lwybr troed, croesfan, ymyl glaswelltog, neu ardal balmantog sy'n perthyn i Brifysgol Bangor na pharcio yn unrhyw le a fyddai'n rhwystro'r gwasanaethau brys neu'n achosi niwsans neu annifyrrwch i unrhyw berson arall.

(l) peidio â chadw anifail yn yr Eiddo.

(m) peidio ag ymyrryd ag offer diogelwch. Ni ddylech gadw drysau tân neu ddrysau diogelwch ar agor na'u hatal rhag cau'n iawn, na chaniatáu i ddieithriaid ddod i mewn trwy ddrysau diogelwch heb iddynt ddangos pwy ydynt.

(n) peidio â rhwystro neu adael unrhyw eitemau ar y grisiau, yn y lifft, yn y coridorau, yn y drysau, ar draws llwybrau, neu yn unrhyw rannau o'r adeilad a rennir.

(o) cydymffurfio â *Chod Ymddygiad*

3.6 Meddianwyr a ganiateir

(a) Ni chewch ganiatáu i unrhyw un arall fyw neu aros yn y llety ond gallwch